# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Chwefror 2018** |
| **Adroddiad gan:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ail strwythuro er mwyn gwella cefnogaeth i deuluoedd.** |

**Y penderfyniad a geisir**

Nodi bwriad y Prif Weithredwr i ail strwythuro ychydig er mwyn rhoi mwy o ffocws ar y gwaith o gefnogi teuluoedd a chynnig unrhyw sylwadau yr hoffai'r Cabinet eu cyflwyno cyn iddo weithredu.

**Cefndir**

1. Bu yna drafodaethau mewnol dros y misoedd diwethaf ynglŷn â sut y byddai modd i'r Cyngor wneud mwy i helpu teuluoedd sydd angen cymorth.

2. Yn wir, mae'r Adran Plant a Theuluoedd wrthi'n datblygu strategaeth cefnogi teuluoedd er mwyn cynnig gwasanaethau cymorth a chefnogaeth i deuluoedd cyn i'w anghenion fynd yn fwy cymhleth a dwys gan ddod a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yn yr hir dymor.

3. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â dymuniad y Cyngor i wneud mwy i helpu trigolion Gwynedd fedru dygymod gydag effeithiau tlodi sydd yn aml (ond nid bob tro) yn effeithio ar yr un teuluoedd.

4. Mae'r dyhead yma yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun corfforaethol sydd yn cael ei gyflwyno i'r cabinet heddiw.

5. Mae'r Adran Plant a Theuluoedd eisoes yn gwneud gwaith da yn y maes yma wrth gwrs, ond yr hyn a welwyd dros y blynyddoedd yw nad yw'r gwaith mor integredig ag y gallai fod ac mae yna fylchau yn ein hymdrechion fel Cyngor a gan ein partneriaid.

6. Dengys ein trafodaethau mewnol fod angen mwy o ffocws ar y maes ataliol yma a bydd y strategaeth cefnogi teuluoedd yn gam tuag at y nod yma.

7. Er mwyn sicrhau'r ffocws hwnnw, mae'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a'r Pennaeth wedi dod i'r casgliad fod angen penodi Uwch Reolwr ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn benodol er mwyn canolbwyntio ar y maes yma.

**Ymateb i'r angen**

8. Rwyf yn cytuno gyda'r dadansoddiad a'r angen yma a'r drefn arferol fyddai cyflwyno bid am yr arian i sefydlu'r fath swydd.

9. Fodd bynnag, fel y mae adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar y gyllideb yn dangos, mae'n bur debygol y bydd y pwysau ariannol sydd arnom yn golygu y bydd angen darganfod arbedion sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Golyga hynny y gallasem fod yn wynebu'r angen i leihau'r nifer rheolwyr sydd gennym yn hytrach na chynyddu.

10. 'Rwyf felly wedi ystyried a oes modd cyflawni'r angen yma mewn ffordd wahanol.

11. Credaf fod modd gwneud hynny drwy drosglwyddo'r Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol o'r Gwasanaeth Economi a Chymuned i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i ymgymryd â'r gwaith yma.

12. Bwriadaf iddi ddod a'r Gwasanaeth Ieuenctid gyda hi (am ei fod yn rhan o'r ateb i helpu pobl ifanc sydd angen cymorth) a byddwn yn rhagweld y byddai'r Uwch Reolwr hefyd yn cymryd y blaen ar gydgordio gwaith yn y maes tlodi.

13. 'Rwyf eisoes wedi trafod y mater gyda'r unigolyn dan sylw a gyda'r Pennaeth Economi a Chymuned a'r Pennaeth Plant a Theuluoedd, a thra bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r Pennaeth Economi a Chymuned, wneud gydag un Uwch Reolwr yn llai a throsglwyddo rhai cyfrifoldebau presennol i uwch reolwyr eraill o fewn ei gwasanaeth, mae hynny'n bosibl.

14. Efallai y bydd yna gost fechan i hynny wrth i ddyletswyddau gael eu hail ddyrannu ond ymylol fydd y gost honno. Bydd y lleihad mewn uwch reolwyr yn cyfrif tuag at darged arbedion yr Adran Economi a Chymuned.

15. Byddaf hefyd angen rhoi rhywfaint o feddwl i sut drefniadau rheolaethol sydd angen eu rhoi mewn lle er mwyn rhoi cyfeiriad priodol i'r maes gan fod cefnogi plant, bobl ifanc a theuluoedd yn aml yn golygu cydgordio ymdrechion nifer fawr o wasanaethau ac asiantaethau.

16. Rhoddir cyfle i'r Cabinet nodi unrhyw sylwadau ar y mater cyn i mi weithredu.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Mae'n briodol fod y Cabinet yn derbyn gwybodaeth ac esboniad o'r newidiadau arfaethedig yma yn benodol gan fod y Cabinet yn ymwneud a phroses o adolygiad darpariaeth o fewn y meysydd yma ar hyn o bryd**.**

**Pennaeth Cyllid**

Mae'n arwydd o gyfundrefn strategol ac ystwyth os gellid symud adnodd uwch reolaethol i gyfarch yr angen sy'n flaenoriaeth. Nodaf byddai'r bwriad i ail strwythuro yn osgoi ymrwymo cyllideb ychwanegol i'r perwyl hyn. Hefyd, bydd ffocws ar y maes ataliol yn allweddol ar gyfer rheoli galw am wasanaethau a rheoli gwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i'r dyfodol. Felly, rwy'n cefnogi'r bwriad awgrymir yma.